# Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 20 Mai 2003

## Cynigion a gyflwynwyd ar 13 Mai 2003

**NDM1476 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn y bydd ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu'n unol â'r maniffesto a gafodd sêl bendith pobl Cymru ar 1 Mai 2003, ac i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd gan y Llywodraeth flaenorol ac mewn partneriaeth â Llywodraeth San Steffan, yn dod â mwy o ffyniant a lles cymdeithasol i bobl ledled Cymru, yn unol ag egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol.

*Gellir gweld y maniffesto ar y Rhyngrwyd drwy glicio ar y cyswllt isod.*
*http://www.llafurcymru.org.uk/policies/index.html*

### Cynnig i Atal Rheol Sefydlog a gyflwynwyd ar 20 Mai 2003

**NDM1480 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 34.4 yn cytuno i atal rheol sefydlog 6.12 er mwyn iddo allu trafod y cynnig heb ddyddiad trafod a gyflwynwyd heddiw (NNDM1479), yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 20 Mai 2003.

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 14 Mai 2003

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1476**

**1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu 'pobl' a rhoi yn ei le '15% o bobl'

**2. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu 'yn rhaid i' ar ôl 'y bydd'. Dileu popeth ar ôl '2003' a rhoi yn ei le:

'arwain at gadw addewidion, gwella gwasanaethau cyhoeddus, a throi cynnydd mewn gwariant yn fuddsoddiad effeithiol.'

## Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 15 Mai 2003

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1476**

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ar ôl 'i weithredu’n unol' dileu 'â’r maniffesto' a rhoi 'â maniffesto Plaid Lafur Cymru' yn ei le

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Dileu ‘a gafodd sêl bendith pobl Cymru ar 1 Mai 2003,’

**3. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu ‘, gobeithio,’ rhwng ‘yn dod’ a ‘â mwy o ffyniant a lles cymdeithasol’

**4. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

‘Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gwrdd ag ymrwymiad y llywodraeth bartneriaeth flaenorol i ostwng maint pob dosbarth mewn ysgolion cynradd i 25 neu lai o fewn ail dymor y Cynulliad Cenedlaethol.’

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu popeth ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol' a rhoi yn ei le 'yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau:

1. ei bod yn cadw at ei haddewidion yn well na’r Llywodraeth flaenorol;
2. ei bod yn dod â mwy o ffyniant a lles cymdeithasol i bobl ledled Cymru, yn unol ag egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol;
3. bod y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn fwy tryloyw ac atebol; ac
4. ei bod yn gwneud datganiad cynnar ar yr angen am bwerau deddfu sylfaenol a’r grym i amrywio lefelau trethi.